Rwy'n credu ac yn gobeithio eu bod nhw wedi darganfod y profiad yn un gwerthfawr a phleserus. Rydym yn bendant wedi mwynhau darparu cefnogaeth ac agor rhai drysau iddynt."

Jenny Rowe
Prif Weithredwr, Goruchaf Lys y Deyrnas Unedig

"Mae wedi bod yn anrhydedd gweithio gyda Big Voice London am ail flwyddyn. I mi, uchafbwynt y flwyddyn oedd gweld perfformiad gwefreiddiol dau o'n myfyrwyr yn rownd derfynol ymryson 'Just Rights'; amlygodd hyn pa mor wych y gall pobl ifanc ddeall a defnyddio cyfreithiau eu gwlad os ydynt yn cael yr offer i wneud hynny.

Cyn i mi ddechrau gweithio â'r prosiect, fel llawer o'n myfyrwyr, roeddwn i'n teimlo bod y gyfraith yn fyd cymharol gaeedig. Fodd bynnag, dros y ddwy flynedd diwethaf rwyf wedi gweld cymaint o siaradwyr yn rhoi eu hamser i rannu eu hangerdd dros fynediad at y gyfraith fel fy mod yn hynod o falch bod yn rhan o ddiwylliant a chymuned gyfreithiol mor gadarnhaol. Wrth symud ymlaen rydym angen isadeiledd cryfach i ganiatáu mynediad at fyd y gyfraith i fwy o bobl ifanc yn yr un ffordd â'n myfyrwyr ni.

Dros y flwyddyn olaf mae ein pobl ifanc, o gefndiroedd diwylliannol amrywiol ac o rannau gwahanol o Lundain, wedi gweithio â'i gilydd i greu tîm. Fel cymuned rydym wedi dysgu am gydraddoldeb a hawliau yn Ne Affrica ac yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Rwy'n gobeithio y byddwn i gyd yn teimlo cyfrifoldeb y wybodaeth a rannwyd â ni, ac y byddwn yn barod i'w ysgwyddo er mwyn gwneud y byd yn well."

Jennifer Blair
Cydlynydd, Big Voice London



POLICE
SECRET TRIALS
KETTLING
ARREST
RESTRAINT
S60
HUMAN RIGHTS
JUSTICE

Cyflwyniad

Big Voice London

Lansiwyd Big Voice London ym mis Ionawr 2011. Cysylltodd Jennifer Blair, myfyrwraig bargyfreithiol, yn

wreiddiol â'r Goruchaf Lys ynglŷn â'u rhaglen allgysylltu â phobl ifanc, a datblygodd y prosiect gyda'u cyngor a'u cefnogaeth. Recriwtiodd Jennifer dîm o wirfoddolwyr ymrwymedig, aeth at ysgolion y wladwriaeth yn Llundain, gan dargedu'r rhai mewn ardaloedd â'r nifer uchaf o dlodi plant, i gasglu at ei gilydd grŵp o 40 o fyfyrwyr chweched dosbarth gyda diddordeb yn y gyfraith.

Caiff Big Voice London ei arwain gan wirfoddolwyr sydd ar y cyfan yn fyfyrwyr cyfraith ôl-raddedig sydd ag ymrwymiad i roi mynediad i ieuenctid. Mae Big Voice yn unigryw yn y ffordd y mae'n mynd i'r afael yn benodol ag ymrwymo pobl ifanc â'r gyfundrefn gyfreithiol. Mae'r prosiect yn ymdrechu i rymuso myfyrwyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd ddifreintiedig drwy eu cysylltu â llunwyr polisi cyfreithiol, fel bod ganddynt lais yn ein cymdeithas.

Big Voice yn 2012

Rydym wedi gweld datblygiadau bendigedig i'r prosiect yn 2012, gan gynnwys creu cystadleuaeth ymryson hawliau dynol 'Just Rights', ble cafodd ein pobl ifanc eu paru â myfyrwyr y gyfraith i gystadlu â'i gilydd fel prif gwnsler a chwnsler iau. Caniataodd hyn i bobl ifanc oedd â dim cefndir cyfreithiol i dderbyn mentora wrth iddynt ddysgu sut i wneud dadl gyfreithiol ar lefel uchel. Rydym yn gwerthfawrogi cyfraniad yr Arglwydd Reed a'r Goruchaf Lys am gynnal y rownd derfynol ac yn gyffrous eu bod wedi cytuno i wneud hynny eto yn 2013.

Y flwyddyn hon rydym wedi adeiladu ar ein hastudiaeth gymharol yn 2011 â De Affrica ol-apartheid, drwy ymchwilio i'r datblygiadau cyfreithiol arloesol sy'n cael eu gwneud yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Cawsom yr anrhydedd i gymryd rhan mewn teithiau addysgol i Fangor, Belffast a Chaeredin sydd wedi rhoi syniadau gwych i ni ar gyfer ein gwaith i'r dyfodol.

Ein Myfyrwyr

Mae'r myfyrwyr yn gwneud cais i ymuno â'r prosiect ac mae cymryd rhan yn Big Voice London yn golygu ymrwymiad sylweddol o ran mynychu sesiynau wythnosol yn ystod y tymor rhwng Ionawr a Rhagfyr 2012, yn ogystal â chymryd rhan mewn teithiau ymchwil dros nos, i gyd yng nghyd-destun pwysau gwaith eu hastudiaethau yn y chweched dosbarth.

Mae cefnogaeth a chydweithrediad yr ysgolion a cholegau sy'n gweithio â ni yn hanfodol i'r prosiect, gan ei fod yn caniatáu i fyfyrwyr gael cefnogaeth a chydnabyddiaeth i'w gwaith. Y flwyddyn hon mynychodd rhan helaeth o'n myfyrwyr City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela`s & St Bonaventure`s Sixth Form Centre a St Dominic's Sixth Form College.

Tri Chwyddwydr ar y Gyfundrefn Gyfreithiol

Calon ein gwaith yw canolbwyntio ar gydraddoldeb a mynediad at gyfiawnder. Mae ein myfyrwyr yn archwilio'r testunau hyn o wahanol safbwyntiau ym mhob un o'r tri grŵp.

Amrywiaeth a'r Gyfraith: archwiliwyd y rhwystrau sy'n effeithio ar fynediad at y proffesiynau cyfreithiol yn ogystal â rôl diwylliant mewn amddiffyniadau cyfreithiol. Heriwyd cysyniadau gwahaniaethu ac archwiliwyd materion megis braint, grymusrwydd a gweithredu cadarnhaol.

Asiantaeth Gyfreithiol: canolbwyntiwyd ar fynediad at y gyfraith yn dilyn diwygiadau Woolf, hawliau dynol a'r gyfundrefn gyfiawnder troseddol, gydag astudiaeth benodol ar rymoedd yr heddlu, gwrthdystiadau, atebolrwydd a'r defnydd o ataliaeth mewn dalfeydd.

Treftadaeth Gyfreithiol: edrychwyd ar effaith celf, pensaernïaeth a llenyddiaeth ar hunaniaeth gyfreithiol, archwiliwyd treftadaeth gyfreithiol amrywiol y myfyrwyr eu hunain ac effaith hawliau ieithyddol a datganoli ar hunaniaeth gyfreithiol yng Nghymru.

Yr Awduron

Y bobl ifanc gymrodd rhan yn y prosiect a gyfrannodd tuag at y papur hwn oedd:

Asiantaeth Gyfreithiol

Adaora Onuora

Aklima Begum

Ali Reza

Disheta Shah

Gabriella Pini-Colbert

Isabella Siegertsz

Khadejah Al Harbi

Leena Begum

Niall MacLaughlin

Sophie Leer

Tahmina Hussain

Unadi Salim

Sonika Nankoosing

Y gwirfoddolwyr oedd yn ymdrin â hwyluso, cydlynu a chyfrannu at y papur hwn oedd:

Alex Cisneros, Dimitra Kamarinou, Frances Bennett, Jennifer Blair, Maleeka Bokhari a Sophie Charles.

Cydnabyddiaethau

Rydym yn gwerthfawrogi'n fawr yr ewyllys da a'r cymorth yr ydym wedi ei dderbyn yn ystod ein prosiect ac yn arbennig i Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor am eu cymorth â'r cyfieithu i'r Gymraeg.

Gwirfoddolwyr yw'r rhai sydd wedi rhoi eu hamser i wireddu'r prosiect. Cafwyd hyfforddiant hwyluso arbenigol gan EquaEd. Y tîm cydlynu oedd Alex Cisneros, Ariana Gale, Jennifer Blair a Maleeka Bokhari. Ein harweinwyr tîm oedd: Adam Muckle, Ben Mills, Dimitra Kamarinou, Esma Komur, Frances Bennett, Lucy Rezler-Kennedy, Michelle Murray, Ruth Hennessy, Sarah Hirech, Sasha Wickham, Sophie Charles, Wendy Bremang, Zahra Afshar. Hoffem hefyd ddiolch i'n gwirfoddolwr cyfreithiol Nargees Choudhury a'n gwirfoddolwr digwyddiadau cyfreithiol Rob Patmore.

Mae Siaradwyr wedi cynnig golwg arbenigol i'r myfyrwyr am eu gwaith a'u profiad proffesiynol. Diolch i: Sophie Farthing o Liberty; Tom Wainwright; Doug Brogan, Bernard Hogan-Howe Comisiynydd yr Heddlu Metropolitan; yr Arglwydd Reed o'r Goruchaf Lys; Adam Wagner; Tom Cleaver; Nisha Gautama, Anna Marshall, Jeremy Coleman a David Simpson o Lys Ynadon Hammersmith; yr Arglwydd Ramsbotham o Dŷ'r Arglwyddi; Rebecca Samaras a Lindsay Jack o Brifysgol Caeredin; y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Graham Sinclair; y Prif Arolygydd James Royan a Heddlu Lothian a'r Gororau; Comisiwn y Gyfraith; Emily Thornberry AS; y Farwnes Helena Kennedy CF a'r Arglwydd Kerr o'r Goruchaf Lys.

Mae llawer mwy sydd wedi cyfrannu at gyflawni'r prosiect. Hoffem ddiolch yn arbennig i: EquaEd, Sarwan Singh a City University, BPP Law School, City and Islington Sixth Form College, Hackney Community College, Mulberry School for Girls, Nower Hill high School, St Angela`s & St Bonaventure`s Sixth Form Centre, St Dominic's Sixth Form College, Islington Council, Kensington Unitarian Church, Gray's Inn, Paul McEvoy o Gyfreithwyr McEvoy Sheridan Solicitors, ein prif noddwr Lexis Nexis a'r Goruchaf Lys.

Cyflwyniad

Daeth cyflwyno'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a heriau newydd i blismona yn y DU. Mae'n rhaid i strategaethau sy'n diogelu'r cyhoedd nawr gael eu cydbwyso yn erbyn hawliau'r unigolyn mewn ffordd gymesur. Yn y papur hwn byddwn yn ystyried pedwar maes ble mae tensiwn rhwng hawliau'r unigolyn a diogelwch y cyhoedd. Y rhain yw: grymoedd stopio a chwilio o dan adran 60 y Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 (DCTThG), plismona gwrthdystiadau, atebolrwydd yr heddlu mewn achosion llys a'r defnydd o ddulliau ataliaeth.

Mae'r papur hwn yn ganlyniad i waith ymchwil am yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, taith addysgiadol i'r Alban ac astudiaeth gymharol o blismona yn Ne Affrica. Yn gryno, ein prif argymhellion yw:

- Dylai grymoedd eang stopio a chwilio o dan adran 60 DCTThG 1994 gael eu hadolygu a'u diwygio er mwyn:
    - Sicrhau bod 'drwgdybiaeth resymol' cyn eu hawdurdodi
    - Cynnwys cod ymarfer ar gyfer awdurdodi swyddogion a staff y llinell flaen;
    - Pwysleisio pwysigrwydd bod y gymuned yn derbyn gweithredu grymoedd argyfwng yr heddlu.
- Dylai ynysu neu 'kettling' gwrthdystwyr gael ei gyfyngu i'w ddefnydd fel y dewis olaf a dylid cyflwyno canllawiau llymach ar ddarparu adnoddau i wrthdystwyr a chyfyngu amser yr ynysiad; hoffwn weld y Llys Hawliau Dynol Ewrop (LlHDE) yn dychwelyd i'r mater hwn.
- Dylid cael gwahaniaeth clir wrth blismona trefn gyhoeddus rhwng hawliau gwrthdystwyr cyfreithlon a hawliau terfysgwyr; dylai'r heddlu achub ar y cyfle i ddefnyddio llwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cysylltu â'r cyhoedd a darganfod y wybodaeth ddiweddaraf.
- Dylid diwygio'r Bil Cyfiawnder a Diogelwch i gyfyngu achosion deunydd caeedig mewn materion diogelwch cenedlaethol i achosion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau cudd, ond nid yr heddlu, er mwyn cefnogi atebolrwydd yr heddlu yn gyhoeddus.
- Dylai dulliau ataliaeth ddi-boen, a ddatblygwyd mewn ysbytai, gael eu defnyddio gan yr heddlu, swyddogion carchardai a chwmnïau diogelwch preifat ac ni ddylai technegau ufudd-dod a phoen risg-uchel gael eu defnyddio mwyach.

Grymoedd Stopio a Chwilio

Mae adran 1 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (DHThD) yn darparu'r heddlu â grym i stopio a chwilio pobl a/neu gerbydau am sawl eitem, gan gynnwys eiddo wedi'i ddwyn, arfau ymosodol neu gyffuriau.[1] Mae'r grymoedd stopio a chwilio hyn yn cael eu caniatáu er mwyn goresgyn y rhwystr o warant, pan fod sylfaen resymol o ddrwgdybiaeth yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth gefndirol, gwybodaeth benodol neu ymddygiad yr un a ddrwgdybir. Wrth drafod y mater yma gyda swyddogion cyswllt y gymuned o'r Heddlu Metropolitan, dysgom eu bod yn ystyried amrywiaeth o elfennau, megis rhai gweledol, clywedol, arogl, amgylchiadau, gwybodaeth flaenorol a gweithrediadau a chyfathrebiadau'r un a ddrwgdybir,[2] er mwyn sefydlu os oes seiliau rhesymol i gyflawni'r stopio a chwilio. Rydym o'r farn bod bodolaeth yr elfen yma yn hanfodol er mwyn sicrhau bod grymoedd yn cael eu defnyddio yn deg a bod eu defnydd yn cael eu cyfiawnhau gan swyddogion, heb unrhyw wahaniaethu ar sail hil, oed, rhyw, crefydd na rhywioldeb. Mae'n adnabyddus bod defnydd anghyfreithlon a gwahaniaethol o stopio a chwilio yn gallu arwain at sefyllfaoedd trychinebus, megis terfysgoedd Brixton yn 1981.[3]

1 Stop and Searches (19 Ebrill 2012) Gwefan y Swyddfa Gartref: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/science-research-statistics/research-statistics/police-research/police-powers-procedures-201011/stops-searches-1011

2 Yn dilyn y S.H.A.C.K.S mnemonic; c.f. t.5,: Search Powers Prior to Arrest (2012) Metropolitan Police: http://www.met.police.uk/foi/pdfs/policies/search_powers_prior_to_arrest_sops_mpsps_version.pdf

3 The Scarman Report (Ebrill 1981) yr Arglwydd Scarman, Penguin Books, ISBN 014022744X, 9780140227444

Adran 60

Un grym stopio a chwilio yw a.60 o'r DCTThG 1994 sy'n darparu'r heddlu â grymoedd i rwystro trais rhagweladwy. Mae'r grymoedd hyn yn wahanol i'r rhai uchod gan nad ydynt yn cynnwys y dull diogelu 'drwgdybiaeth resymol' sydd yn ynghlwm i berson penodol, a dyma yw sail ei brif feirniadaeth. Gall grymoedd a.60 eu hawdurdodi am gyfnod o 24 awr gan swyddog o statws arolygydd neu uwch ac mae'n rhaid iddo gael ei seilio ar 'gred resymol' a) 'y gall digwyddiadau sydd yn cynnwys trais difrifol ddigwydd' neu fod b) '*personau yn cario...arfau ymosodol...heb reswm da*' (DCTThG a.60(1)).

Ble mae drwgdybiaeth resymol bod y drosedd o drais difrifol neu gario arf ymosodol wedi ei gyflawni, gall swyddog â statws Uwch-arolygydd neu uwch ymestyn yr awdurdod am ail gyfnod o 24 awr (DCTThG a.60(3)). Yn ystod yr amser y mae gorchymyn a.60 mewn grym, gall swyddog heddlu '*rwystro unrhyw berson neu gerbyd i'w chwilio ble y mynnai pa un a oes ganddo sail i ddrwgdybio bod y person neu gerbyd yn cario arfau neu beidio*' (DCTThG a.60(5)).

Y brif broblem a ganfuwyd gennym gyda'r ffaith mai 'cred resymol' yn unig sydd angen i uwch swyddogion ei gael er mwyn awdurdodi defnydd y grym, yw bod 'cred resymol' yn derm amwys. Mae'n ymddangos nad oes llawer i rwystro rhywun rhag cymryd mantais o'r gyfraith a'i ddefnyddio ar gyfer rhesymau gwahanol i'r hyn yr oedd wedi ei ddylunio ar ei gyfer, er enghraifft gall yr heddlu stopio a chwilio pobl i chwilio am bethau gwahanol i arfau, er enghraifft, cyffuriau, neu gellir defnyddio'r grymoedd hyn i erlid unigolion sy'n hysbys i'r heddlu.

Yn ystod y flwyddyn 2010/2011, allan o'r 60,963 o bobl a gafodd eu stopio a'u chwilio yng Nghymru a Lloegr[4] o dan a.60 (gyda 53,518 ohonynt yn Llundain), 505 yn unig oedd yn cario arfau ymosodol neu offerynnau peryglus eraill ac o'r rhain, dim ond 243 gafodd eu harestio. Roedd yr 1,160 arestiad arall yn sgil stopio a chwilio a.60 am resymau ar wahân i gario arfau ymosodol.[5]

Mae'r canran a arestiwyd wedi 'u chwilio o 2.3% yn achosi i ni gwestiynu os all y 'gred resymol' sydd gan swyddogion heddlu cyn awdurdodi stopio a chwilio fod yn wrthrychol, yn ddiamwys a chymesur. A yw'n gyfreithiol gyfiawn ac yn y pen draw yn werth o bosib dieithrio rhan fawr o'r boblogaeth, sydd wedi cael eu stopio a'u chwilio heb ddrwgdybiaeth resymol, er mwyn darganfod y lleiafrif bychan sy'n gyfrifol neu a all fod yn gyfrifol o drais?

Mae'n ymddangos bod yr ateb wedi ei seilio ar ba un ai yw'r chwiliadau yn angenrheidiol, yn ôl y gyfraith mewn cymdeithas ddemocrataidd a chymesur, gan mai dyma'r profion sy'n cael eu cymhwyso o dan y Ddeddf Hawliau Dynol. Yn ogystal â stopio a chwilio yn effeithio ar Erthygl 8 - yr hawl i fywyd preifat - mae pryderon bod chwiliadau a.60 yn targedu grwpiau cymdeithasol neu o hil benodol yn aml, sydd o bosib yn groes i Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD).[6]

Gofyniad Achos Rhesymol

Mae'r prawf yn gymwys i sefyllfaoedd ble mae arestiad yn cael ei wneud heb achos rhesymol. Tra bod y term 'achos rhesymol' yn cynrychioli'r ffeithiau a'r amgylchiadau sy'n ffurfio 'drwgdybiaeth resymol', caiff y ddau derm eu defnyddio yn rhyng-gyfnewidiol.

4 Gwefan y Swyddfa Gartref, 'Stop and searches tables (Police Powers and Procedures England and Wales 2010/11), (19 Ebrill 2012) Ar gael ar: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/science-research-statistics/research-statistics/police-research/immigration-tabs-q4-2011/stops-searches-1011-tabs (SS.05)

5 Ibid.

6 Er enghraifft, mae aelodau o'r grwp wedi cyfleu sut y cawson nhw eu stopio a'u chwilio o dan a.60 oherwydd ei bod yn 'Asiaidd', a fyddai'n disgyn yn glir o fewn rhychwant Erthygl 14.

Yn nyfarniad Llys Hawliau Dynol Ewrop yn *Gillan*,[7] daeth y Llys i'r casgliad bod grymoedd stopio a chwilio o dan a.44 Deddf Derfysgaeth 2000 yn llawer rhy eang ac yn cymryd lle heb ddrwgdybiaeth resymol, gan dorri'r hawl i breifatrwydd y rhai a gafodd eu stopio a'u chwilio. Yn dilyn hyn galwodd y Cydbwyllgor Seneddol ar Hawliau Dynol am adolygiad o'r Ddeddf Derfysgaeth 2000 (DD), a arweiniodd tuag at ddulliau diogelu pellach.[8] Yn unol â'r penderfyniad hwn, rydym yn argymell adolygiad tebyg o rymoedd a.60, i archwilio os all darpariaeth mor gynhwysfawr gydymffurfio â'n hymrwymiad i hawliau dynol.

Os am gadw a.60, rydym yn argymell y dylid diwygio'r ddeddfwriaeth ar hyd yr un llinellau â a.44 DD i gynnwys cod ymarfer tebyg sy'n rhaid i swyddogion yr heddlu ei ddilyn cyn awdurdodi stopio a chwilio drwy a.60. Ein prif argymhelliad ynglŷn â a.60 yw y dylai'r broses awdurdodi fynd tu hwnt i 'gred resymol' a'i gwneud yn ofynnol i ddrwgdybiaeth resymol gael ei gefnogi gan wir wybodaeth.

Cyn y gall chwiliad drwy a.60 gael ei awdurdodi, dylai staff y llinell flaen gael sgript sylfaenol sy'n amlinellu sut y dylent gyfathrebu eu gweithrediad o'r grymoedd hyn i'r cyhoedd, gan ddefnyddio iaith glir a chwrtais i osgoi pobl deimlo fel eu bod yn cael eu trin fel troseddwyr. Ar gyfer atebolrwydd, byddem yn awgrymu bod swyddogion heddlu sy'n gweithredu stopio a chwilio a.60 yn gwisgo helmedau â chamerâu er mwyn sicrhau bod y weithdrefn yn cael ei fonitro a'i reoli yn well gan uwch swyddogion.

Mae angen gwell ymwybyddiaeth gyhoeddus o rymoedd stopio a chwilio er mwyn gwella'r berthynas rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Rydym yn argymell bod yr heddlu yn adeiladu ar eu strategaethau cyswllt â'r cyhoedd drwy ymweld ag ysgolion ac ystyried sylwadau pobl ifanc, efallai fel rhan o Gwricwlwm Dinasyddiaeth. Yn olaf, rydym yn argymell y dylid cyflwyno cyfarwyddyd canolog i'w gwneud yn glir mai mesur argyfwng yw a.60, yn hytrach nag offer y mae disgwyl i Gomander Bwrdeistrefi ei ddefnyddio i ddangos ei fod yn llym ar droseddau sy'n ymwneud â chyllyll, gan fod hyn yn bryder a grybwyllwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu Metropolitan yn ystod ein cyfarfod gydag ef eleni.

Plismona Gwrthwynebiad Cyhoeddus a Gwrthdystiadau

Yn ôl Erthygl 10 o'r CEHD, mae gan bawb yr hawl i ryddid mynegiant ac yn ôl Erthygl 11, mae gan bawb yr hawl i ymgynnull yn heddychlon ac ymgysylltu ac eraill, gan gynnwys yr hawl i wrthdystio. Pan fo gwrthdystiad yn heddychlon, dylai'r heddlu fod yn bresennol i ddiogelu'r gwrthdystwyr a gwneud yn siŵr eu bod yn gallu gweithredu eu rhyddid mynegiant heb ymyrraeth.[9]

Fodd bynnag, mae achosion ble gall grŵp o bobl benderfynu mynegi eu barn yn gyhoeddus mewn ffordd sy'n amharu ar hawliau eraill, gan arwain at dorri'r heddwch ac o bosib trais. Gall yr hyn sy'n dechrau fel gwrthdystiad heddychlon ddatblygu i achos difrifol o wrthwynebiad cyhoeddus neu derfysgaeth. Yn yr achosion hynny, mae'r heddlu yn bresennol i ddiogelu lles y cyhoeddus a rhwystro trais rhag lledaenu. I'r perwyl hwn, mae'n hysbys bod yr heddlu yn defnyddio amryw o dechnegau i ymateb i drais y gwrthdystwyr; mae'r rhain yn cynnwys 'ynysu' neu 'kettling' gwrthdystwyr neu drwy wthio gwrthdystwyr yn ôl gyda heddweision mewn offer terfysg, drwy ddefnyddio chwistrellydd CS neu fwledi rwber rhag i anhrefn waethygu.

7 Gillan and Quinton v The United Kingdom, ECtHR Application no. 4158/05 (12 January 2010); ar gael ar-lein ar: http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2010/28.html. C.f. Stop and Search Powers Under Review (2010) Adam Wagner, UK Human Rights Blog: http://ukhumanrightsblog.com/2010/07/01/stop-and-search-powers-under-review-as-european-court-reject-uk-appeal/

8 The Terrorism Act 2000 (Remedial) Order 2011; ar gael ar-lein ar: http://www.homeoffice.gov.uk/publications/counter-terrorism/terrorism-act-remedial-order/terrorism-act-remedial-order?view=Binary

9 Beatty v Gillbanks (1882) 9 QBD 308; c.f. trafodaeth gan Bwyllgor Dethol Materion Gogledd Iwerddon ar-lein ar: http://www.parliament.the-stationery-office.co.uk/pa/cm200001/cmselect/cmniaf/120/120ap25.htm.

Gwrthdystio a Llys Hawliau Dynol Ewrop

Cafodd y dechneg ynysu (a elwir yn aml yn 'kettling'), fel dull ar gyfer rheoli torf fawr yn ystod gwrthdystiadau, ei ystyried yn ddiweddar gan y LlHDE yn achos *Austin and others v The United Kingdom*.[10] Dangosodd yr apelyddion, oedd yn cynnwys gwrthdystwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd oedd wedi eu dal yn yr ardal ynysu, bod yr heddlu wedi ynysu ardal o amgylch y gwrthdystwyr a gwrthod iddynt adael am bron i saith awr heb ddarparu digon o ofod i symud, na chyfleusterau toiled na dŵr yn ystod gwrthdystiad yn erbyn globaleiddio yn Llundain.[11] Dyfarnodd y Llys nad oedd yr heddlu wedi torri hawl y gwrthdystwyr i ryddid o dan erthygl 5, gan mai cyfyngiad dros dro yn unig ar ryddid symudiad y gwrthdystwyr oedd yr 'ynysu', ac nid carchariad, ac roedd yn gymesur ac yn angenrheidiol i osgoi difrod difrifol.

Rydym o'r farn bod y Llys wedi mynd yn rhy bell yn ei benderfyniad, oherwydd mae'n ymddangos ei bod yn ailddiffinio 'rhyddid' mewn ymgais i gyfiawnhau ei ddyfarniad. Os rhywbeth, nid yw Erthygl 5 yn gwahaniaethu rhwng cyfyngiadau dros dro a pharhaol o ryddid; mae ystyr naturiol 'rhyddid' yn cynnwys 'rhyddid symudiad' yn y cyd-destun hwn ac felly dylai ond gael ei gyfyngu os yw un o'r eithriadau cyfreithlon penodol yn gymwys o dan Erthygl 5(1)(a)-(f). Rydym yn annog LlHDE i ail-ystyried y mater.

Rydym wedi trafod y materion sy'n ymwneud â'r defnydd o dechnegau ynysu gyda chynrychiolwyr o dîm trefn gyhoeddus yr Heddlu Metropolitan a gydag uwch swyddogion heddlu yn yr Alban ar ein hymweliad a Phencadlys Heddlu Lothian a'r Gororau yng Nghaeredin. Rydym wedi ein cysuro bod timau trefn gyhoeddus yr heddlu yn ceisio sicrhau cyn belled â phosib yn eu cyfnodau paratoi ar gyfer gwrthdystiad arfaethedig na fydd angen defnyddio 'kettling.' Hysbyswyd ni hefyd bod hyn fwyaf llwyddiannus drwy gyswllt rhwng yr heddlu, y cyhoedd a'r gwrthdystwyr, er bod yr heddlu yn llawn barod i weithredu mesurau o'r fath petai angen fel dewis olaf.

Roeddem yn ddigon lwcus i siarad hefyd â Tom Wainwright, arbenigwr ar gyfraith gwrthdystiadau a bargyfreithiwr o Garden Court Chambers, ac mae'n ymddangos i ni fod amwyster yn parhau mewn perthynas â'r nifer o bobl sy'n cael eu hynysu mewn 'kettle' a pa adnoddau sy'n cael eu darparu iddynt yn ystod ynysiad. Byddem yn argymell:

- Bod 'Kettling' yn cael ei ddefnyddio fel y dewis olaf i'r heddlu, ar ôl i asesiad o fwriad y gwrthdystwyr gael ei gyflawni a dim ond pan fydd casgliad bod risg uchel o droi at drais ar ddigwydd;
- Yn ystod yr asesiad, dylai'r heddlu, o fewn rheswm, geisio adnabod unrhyw aelodau bregus o'r boblogaeth ymysg y gwrthdystwyr a'u symud o'r neilltu cyn i'r cyfyngiad gael ei roi yn ei le;
- Y dylai'r heddlu ddarparu adnoddau toiled a dŵr digonol i'r gwrthdystwyr;
- Y dylai canllawiau llym ar gyfyngiadau amser derbyniol gael eu cyflwyno a bod cyfarwyddyd clir gan uwch swyddog petai angen i'r ynysu barhau am gyfnod tu hwnt i bedair awr.

Hwliganiaeth, Gwrthdystiadau Modern a Chyfryngau Cymdeithasol

Wrth edrych ar faterion trefn gyhoeddus, buom yn ystyried cyd-destun 'hwliganiaeth' fel cefndir i sut mae'r heddlu yn edrych ar anhrefn gyhoeddus heddiw a sut mae hwliganiaeth wedi effeithio ar yr ymateb i wrthdystiadau modern. Daeth 'hwliganiaeth' yn gyfystyr â chefnogwyr pêl-droed yn ystod yr 1970au a 80au,[12] a daeth gwleidyddion a'r heddlu o dan gryn bwysau i drin troseddau trefn gyhoeddus mewn chwaraeon yn fwy effeithiol. Ers y cyfnod hwn mae deddfwriaeth ar draws y DU sy'n herio trais digymell a thrais wedi ei gynllunio gan griwiau

10 Austin and others v the United Kingdom, ECtHR Applications nos. 39692/09, 40713/09 and 41008/09 (15 Mawrth 2012); ar gael ar-lein ar: http://www.bailii.org/eu/cases/ECHR/2012/459.html

11 Human Rights Europe, 'Judges reject police "kettling" human rights appeal' (15 Mawrth 2012), Ar gael ar: http://www.humanrightseurope.org/2012/03/judges-reject-police-kettling-human-rights-appeal/

12 Hooliganism (2007) Dr Geoff Pearson, Football Industry Group, University of Liverpool; ar gael ar-lein ar: http://www.liv.ac.uk/footballindustry/hooligan.html

o gefnogwyr pêl-droed.[13] Mae'n angenrheidiol nad yw'r heddlu yn ymdrin â gwrthdystiadau cyfreithlon gyda'r un agwedd â rhai treisgar.[14] Er enghraifft, mae hawl myfyrwyr, sy'n gwrthdystio yn erbyn y cynnydd i ffioedd myfyrwyr, i ymgynnull wedi ei ddiogelu gan y CEHD, ond ni fyddai'n gymwys yn yr un ffordd i'r rhai oedd yn cymryd rhan yn nherfysgoedd Llundain, felly ni ddylai'r ddau grŵp gael eu trin gyda'r un strategaethau.

Nodwedd ychwanegol heddiw yw rôl y cyfryngau cymdeithasol, sy'n caniatáu i ymgynulliad cyhoeddus ddigwydd yn ddigymell. Mae offer rhyngweithio cymdeithasol, megis Facebook, Twitter, Blackberry Messenger a darparwyr negeseuon parod eraill, yn golygu bod modd cynllunio digwyddiadau o anhrefn gyhoeddus, mewn cyfnod gymharol fach o amser. Roedd hyn yn amlwg yn y terfysgoedd llynedd, gan i nifer adrodd eu bod wedi derbyn 'darllediad' cyfrwng cymdeithasol yn rhoi gwybod iddynt ble i fynd, a arweiniodd at y terfysgoedd yn lledaenu yn sydyn dros ben a'r bobl oedd yn rhan ohono yn aros un cam ar y blaen i'r heddlu.[15] Byddem yn argymell fod yr heddlu yn:

- Llwyr gofleidio'r holl ffurfiau newydd o gyfryngau cymdeithasol, megis Twitter, er mwyn casglu gwybodaeth yn sydyn ac ar yr un amser â'r digwyddiad yn cymryd lle;
- Parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd ragweithiol i rwystro troseddau, cynyddu ymwybyddiaeth gyhoeddus a thorri rhwystrau cyfathrebu rhyngddynt â'r cyhoedd;
- Peidio ceisio cael mynediad i gyfrifon cyfryngau cyhoeddus eraill heb awdurdod cyfreithiol, gan y byddai hyn yn ymyrraeth sylweddol â'r hawl i breifatrwydd (Erthygl 8 CEHD).

Atebolrwydd yr Heddlu ac Achosion Cyfrinachol

Gan fod yr heddlu yn bodoli i wasanaethu'r cyhoedd a chynnal yr heddwch, mae'n dilyn yn rhesymegol bod gan y cyhoedd hawl i gael llais dros faterion sy'n berthnasol i bolisi plismona. Yn ogystal, mae ein cyfundrefn gyfiawnder wedi ei sylfaenu ar egwyddorion o gyfiawnder agored. O ganlyniad, rydym yn bryderus y gall y cynnig ar gyfer 'achosion cyfrinachol' mewn achosion sy'n codi materion diogelwch cenedlaethol yn y Bil Cyfiawnder a Diogelwch atal neu leihau atebolrwydd i'r cyhoedd.[16]

Mae cydnabyddiaeth eisoes bod elfennau gelyniaethus a drwgdybiaeth yn rhan o'r berthynas rhwng yr heddlu a'r cyhoedd. Rydym yn credu y byddai'r posibilrwydd o gynnal achosion cyfrinachol sy'n cynnwys aelodau o'r heddlu, ac nid yn unig y gwasanaethau cudd, yn cynyddu'r hinsawdd negyddol hwn. Byddai cynnal achosion cyfrinachol ar gyfer heddweision sy'n ymwneud ag achosion sy'n effeithio ar ddiogelwch cenedlaethol yn arwain i gyfundrefn gyfiawnder dwy-haen ac annheg, gan y byddai'n rhaid i'r person lleyg cyffredin fynychu treial cyhoeddus, gyda'r holl ganlyniadau a sylw cyfryngol a ddaw yn sgil hynny. Yn olaf, mae hefyd ofn gwirioneddol y byddai achosion cyfrinachol yn atal yr heddlu rhag cael eu dal yn atebol a gallai hyn arwain at safon is o blismona yn gyffredinol.

Gan y dylai'r gyfundrefn gyfiawnder fod yn agored a thryloyw, felly hefyd ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Nid ydym o'r farn y dylai achosion cyfrinachol gael eu lledaenu tu hwnt i achosion o ddiogelwch cenedlaethol, ac felly dylid diwygio adran 6 o'r Bil Cyfiawnder a Diogelwch i'w gymhwyso ar gyfer y gwasanaethau cudd yn unig.[17]

13 C.f. y dadansoddwyd defnyddiol o'r maes hwn yn Football Hooliganism, Politics.co.uk; ar gael ar-lein ar: http://www.politics.co.uk/reference/football-hooliganism a'r Football (Offences and Disorder) Bill 1999: http://bit.ly/ZoTKAL.

14 Fel yr amlinellwyd yn Taking Liberties (2008) cyfarwyddwyd gan Chris Atkins; gweler gwefan y ffilm am fanylion pellach: http://www.noliberties.com/.

15 After the Riots (2012) Riots Communities and Victims Panel, t. 129; ar gael ar-lein ar: http://riotspanel.independent.gov.uk/wp-content/uploads/2012/03/Riots-Panel-Final-Report1.pdf

16 I weld y drafodaeth gyfredol ar y mater hwn c.f. Amlinelliad o'r ymgynghoriad ac ymatebion i'r Bil Cyfiawnder a Diogelwch, ar gael ar-lein ar: http://consultation.cabinetoffice.gov.uk/justiceandsecurity/the-justice-and-security-bill.

17 Ar hyn o bryd mae'r cynnigion yn gymwys ar gyfer achosion o 'ddiogelwch cenedlaethol' yn unig, ond nid yw'n eithrio achosion sy'n ymwneud â'r heddlu; c.f. y Bil Cyfiawnder a Diogelwch ar-lein ar: http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2012-2013/0027/lbill_2012-20130027_en_1.htm

Tryloywder a Chyfrinachedd yn Ne Affrica

Tra bod y Bil Cyfiawnder a Diogelwch yn cael ei drafod yn y DU, mae'r Bil Diogelu Gwybodaeth y Wladwriaeth (BDGW) yn y broses o ddod yn gyfraith yn Ne Affrica.[18] Mae'r Bil yma, sy'n gwneud datgelu cyfrinachau gwladwriaethol ac ysbïo yn drosedd, wedi cael beirniadaeth sylweddol yn Ne Affrica, gan y byddai, er enghraifft, yn ei gwneud yn anghyfreithlon i newyddiadurwyr ddatgelu llwgrwobrwyo a llygru ar haen uchel swyddogol.[19] Yn debyg i'r adran yn y Bil Cyfiawnder a Diogelwch sy'n berthnasol i geisiadau Norwich Pharmacal,[20] ni fyddai'r BDGW yn caniatáu'r llysoedd i gydbwyso gwahanol les i'r cyhoedd.

Os yw'r BDGW yn dod yn gyfraith, bydd yn agored i aelodau o Gynulliad Cenedlaethol De Affrica i wneud cais i Lys Cyfansoddiadol De Affrica i brofi os yw'r ddeddfwriaeth yn anghyfansoddiadol,[21] ond nid oes y fath drywydd ar gael i ni yn y DU felly byddem yn annog y pleidiau gwleidyddol yn y DU i ystyried os yw'r ddeddfwriaeth hon yn wirioneddol angenrheidiol. Byddem yn cymryd hyder o'r gweithredaeth rhyddid sifil grymus sydd yn Ne Affrica i argymell y dylai fod yn agored i'r llys gydbwyso gwahanol les i'r cyhoedd mewn unrhyw achos sy'n ymwneud â hawliau dynol a chyhuddiadau o lygru a llwgrwobrwyo ar haen uchel.[22]

Defnydd o Ataliaeth

Roeddem yn ffodus i gael y cyfle i gyfarfod yr Arglwydd Ramsbotham yn Nhŷ'r Arglwyddi, i drafod ei adroddiad arfaethedig gyda'r Comisiwn Lloches Annibynnol a Citizens UK sy'n ymdrin â'r defnydd o ataliaeth mewn dalfeydd.[23] Roedd hyn yn fuan wedi'r cyhoeddiad na fyddai staff diogelwch yn cael eu cyhuddo am farwolaeth Jimmy Mubenga yn ystod disodli lloches[24] ac ar yr un pryd cafwyd newyddion am ddau heddwas yn cael eu cyhuddo o gamymddygiad am ddefnyddio grym eithafol wrth weithredu techneg ataliaeth wedi ei seilio ar boen ac ufudd-dod.[25]

Eglurodd yr Arglwydd Ramsbotham bod canolfannau iechyd meddwl ac ysbytai wedi datblygu a chyflwyno dulliau ataliaeth sydd ddim yn defnyddio poen ac sydd yr un mor effeithiol â'r technegau ataliaeth a ddefnyddir gan yr heddlu, gwasanaeth carchardai a gwasanaethau diogelwch preifat. Byddem yn argymell yn gryf bod y technegau hyn yn cael eu defnyddio drwyddi draw, i leihau'r defnydd o ataliaeth sy'n achosi pryder eithriadol ac sydd mewn defnydd eang, ac sy'n agored i'w camddefnyddio, yn arbennig wrth ddisodli lloches, ble efallai nad yw cwmnïau diogelwch preifat wedi eu hyfforddi'n ddigonol.[26] Os oes dewis arall ar gael, mae'n bosib y gall technegau poen ac ufudd-dod dorri hawliau dynol yr unigolyn, ac fe ellir, o bosib, ei gyfrif fel artaith neu driniaeth neu gosb greulon a diraddiol, gan dorri Erthygl 3 o CEHD.[27]

18 Ar gael ar-lein ar: http://www.info.gov.za/view/DownloadFileAction?id=151319.

19 C.f. ANC's secrecy bill seen as assault on South African press freedom (Mehefin 2012) Smith, the Guardian; ar gael ar-lein ar: http://www.guardian.co.uk/world/2012/jun/06/south-africa-secrecy-bill-press-freedom.

20 Adran 13 ymlaen; ar gael ar-lein ar: http://www.publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/2012-2013/0027/13027.pdf.

21 O dan adran 80 o Gyfansoddiad De Affrica; ar gael ar-lein ar: http://www.info.gov.za/documents/constitution/1996/96cons4.htm#80.

22 Gan gynnwys achosion megis un Binyam Mohamed; c.f. http://www.reprieve.org.uk/cases/binyammohamed/history/.

23 Mae mwy o wybodaeth ynglŷn â'r gwaith yma ar wefan Citizens UK: http://www.citizensuk.org/campaigns/citizens-uk-diaspora-caucus/citizens-for-sanctuary/.

24 Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag achos trist Jimmy Mubenga gweler: http://www.guardian.co.uk/uk/jimmy-mubenga a http://blog.cps.gov.uk/2012/07/cps-decision-on-death-of-jimmy-mubenga.html ynglŷn â'r penderfyniad i beidio erlyn.

25 Moment a policeman lost his temper (2012) Tozer and Parveen, Daily Mail; ar-lein ar: http://www.dailymail.co.uk/news/article-2215608/PC-Stephen-Hudson-spared-jail-CCTV-captures-using-pain-restraint-boy-15.html

26 Gwefan Parliament.uk, 'Written evidence submitted by Amnesty International UK' http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201012/cmselect/cmhaff/563/563we07.htm

27 Gweler erthygl ar-lein: http://www.cambridge-news.co.uk/News/Handcuffing-prisoner-dying-in-hospital-unnecessary-12102012.htm

Casgliad

Yn ystod ein hymweliad â phencadlys yr heddlu yng Nghaeredin gwnaed argraff hynod o dda arnom gan y flaenoriaeth sy'n cael ei roi i gyswllt â'r gymuned gan heddlu'r Alban. Dangoswyd i ni sut yr oedd mewnbwn gan y gymuned yn cael ei werthfawrogi a'i gynnwys ymhob cyfnod o strategaeth yr heddlu, gan arwain at ddadansoddi o'r gwreiddiau i fyny. Mae hyn wedi arwain, er enghraifft, i ymgyrch helaeth yn erbyn troseddau atgasedd, ers i hynny gael ei nodi gan y gymuned leol fel maes o bryder arbennig.

Gyda cyflwyniad comisiynwyr heddlu etholedig, rydym yn bryderus y bydd blaenoriaethau plismona yn dod yn fwy gwleidyddol. O'n profiad ni dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r plismona gorau yn cynnwys gwrando ar y bobl y dylai'r heddlu fod yn eu gwasanaethu ac byddai'n siomedig os byddai'r dull yma'n cael ei golli yn y system newydd.

I gloi, hoffem weld mwy o gyswllt â'r cyhoedd ac yn arbennig gyda phobl ifanc, er enghraifft wrth ddylunio a gwerthuso cynlluniau gwyrio.